

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A477
(East Williamston i Ddoc Penfro,
Sir Benfro) (Cyfyngiadau
Cyflymder Dros Dro a Dim
Goddiweddyd) 2020

The A477 Trunk Road (East
Williamston to Pembroke Dock,
Pembrokeshire) (Temporary Speed
Restrictions & No Overtaking)
Order 2020

Gwnaed 14 Ebrill 2020

Made 14 April 2020

Yn dod i rym 20 Ebrill 2020

Coming into force 20 April 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A477, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A477 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Chymhwyso

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (East Williamston i Ddoc Penfro, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2020 a daw i rym ar 20 Ebrill 2020.

1. The title of this Order is the A477 Trunk Road (East Williamston to Pembroke Dock, Pembrokeshire) (Temporary Speed Restrictions & No Overtaking) Order 2020 and it comes into force on 20 April 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 20 Ebrill 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A477 Sanclêr i Ddoc Penfro;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Trosedd Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A477 St Clears to Pembroke Dock Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 00:01 hours on 20 April 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Restrictions and Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedules to this Order.

5. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in the Schedules to this Order during such times as the restriction referred to in article 4 is in operation.

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

Cymhwyso

6.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

14 Ebrill 2020

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd Dosbarth III yr C3129 (i East Williamston) hyd at bwynt 260 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Caeriw, gan gynnwys cerbyttffyrdd cylchredol Cylchfan Sageston a Chylchfan Caeriw.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 910 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Caeriw hyd at bwynt 920 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Waterloo, Doc Penfro.

Application

6.—(1) The restrictions and prohibition in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Suspension

7. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in the Schedules to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 3 and 4 are in operation.

Duration of this Order

8. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the

14 April 2020

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

SCHEDULE 1

Temporary 40 mph or 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the trunk road that extends from the centre-point of its junction with the C3129 Class III road (to East Williamston) to a point 260 metres west of its junction with Carew Roundabout, including the circulatory carriageways of Sageston and Carew Roundabouts.

The length of the trunk road that extends from a point 910 metres west of its junction with Carew Roundabout to a point 920 metres east of its junction with Waterloo Roundabout, Pembroke Dock.

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim
Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 260 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Caeriw hyd at bwynt 910 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 920 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Waterloo, Doc Penfro hyd at bwynt 230 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 230 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Waterloo, Doc Penfro hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol y gylchfan honno, gan gynnwys ei cherbyttffordd gylchredol.

SCHEDULE 2
Temporary 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the trunk road that extends from a point 260 metres west of its junction with Carew Roundabout to a point 910 metres west of that junction.

The length of the trunk road that extends from a point 920 metres east of its junction with Waterloo Roundabout, Pembroke Dock to a point 230 metres east of that junction.

The length of the trunk road that extends from a point 230 metres east of its junction with Waterloo Roundabout, Pembroke Dock to its junction with the western side of that roundabout, including its circulatory carriageway.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A477 (EAST WILLIAMSTON I DDOC PENFRO, SIR BENFRO) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2020

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A477, neu gerllaw iddi, rhwng East Williamston a Doc Penfro, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

- i. gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 10 mya a gwahardd goddiweddyd ar y darnau o'r A477 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; a
- ii. gosod terfyn cyflymder o 10 mya a gwahardd goddiweddyd ar y darnau o'r A477 a ddisgrifir yn Atodlen 2.

Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 20 Ebrill 2020 ac yn parhau mewn grym hyd 23:59 o'r gloch ar 24 Ebrill 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A477 TRUNK ROAD (EAST WILLIAMSTON TO PEMBROKE DOCK, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO OVERTAKING) ORDER 2020

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A477 trunk road between East Williamston and Pembroke Dock, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily:

- i. impose either a 40 mph or 10 mph speed limit and prohibit overtaking on the lengths of the A477 described in Schedule 1 to this Notice; and
- ii. impose a 10 mph speed limit and prohibit overtaking on the lengths of the A477 described in Schedule 2.

The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The temporary restrictions and prohibition are expected to come into force at 00:01 hours on 20 April 2020 and remain in force until 23:59 hours on 24 April 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd Dosbarth III yr C3129 (i East Williamston) hyd at bwynt 260 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Caeriw, gan gynnwys cerbyttyrdd cylchredol Cylchfan Sageston a Chylchfan Caeriw.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 910 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Caeriw hyd at bwynt 920 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Waterloo, Doc Penfro.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 260 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Caeriw hyd at bwynt 910 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 920 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Waterloo, Doc Penfro hyd at bwynt 230 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 230 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Waterloo, Doc Penfro hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol y gylchfan honno, gan gynnwys ei cherbyttyrdd gylchredol.

SCHEDULE 1

Temporary 40 mph or 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the trunk road that extends from the centre-point of its junction with the C3129 Class III road (to East Williamston) to a point 260 metres west of its junction with Carew Roundabout, including the circulatory carriageways of Sageston and Carew Roundabouts.

The length of the trunk road that extends from a point 910 metres west of its junction with Carew Roundabout to a point 920 metres east of its junction with Waterloo Roundabout, Pembroke Dock.

SCHEDULE 2

Temporary 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the trunk road that extends from a point 260 metres west of its junction with Carew Roundabout to a point 910 metres west of that junction.

The length of the trunk road that extends from a point 920 metres east of its junction with Waterloo Roundabout, Pembroke Dock to a point 230 metres east of that junction.

The length of the trunk road that extends from a point 230 metres east of its junction with Waterloo Roundabout, Pembroke Dock to its junction with the western side of that roundabout, including its circulatory carriageway.